**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**POLISI MASNACHU AR Y STRYD**

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982**
**ATODLEN 4**

## 1.0 Diffiniad o Fasnachu ar y Stryd

1.1 Ystyr Masnachu ar y Stryd yw cynnig, dangos neu werthu nwyddau sydd ar werth (gan gynnwys pethau byw). Mae hyn yn golygu bod y ddeddfwriaeth yn cynnwys hysbysebu a chynnig eitemau sydd ar werth er ei bod wedi'i chyfyngu i nwyddau yn unig ac nid i wasanaethau.

1.2 Mae Masnachu ar y Stryd yn golygu mynd mor bell â gwerthu'r nwyddau, ac nid dim ond cytundeb i werthu nwyddau; hynny yw, mae angen i'r nwyddau fod yn bresennol yn ffisegol ac mae'n rhaid i'r hawl ar yr eiddo drosglwyddo fel rhan o'r contract a weithredir rhwng y masnachwr a'r prynwr.

## 2.0 Mae esemptiadau o reolaethau Masnachu ar y Stryd yn cynnwys:

- Masnachu gan berson sy'n gweithredu fel pedler gyda thystysgrif pedler a ganiatawyd dan Ddeddf Pedleriaid 1871.
- Marchnadoedd neu ffeiriau, lle mae dyletswydd statudol i gynnal y farchnad neu'r ffair (megis trwy Siarter Brenhinol).
- Masnachu mewn ardal picnic ar gefnffordd a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan Ddeddf Priffyrdd 1980.
- Masnachu fel gwerthwr newyddion (dim ond papurau newydd neu gyfnodolion y gellir eu gwerthu ac ni chaiff yr un stondin na chynheilydd fod yn fwy nag 1.0m wrth 1.25m wrth 2.0m o uchder ac ni ddylai fod yn sefyll ar y ffordd gerbydau).
- Masnachu a wneir mewn gorsafoedd petrol neu ar eu blaengyrtiau.

- Masnachu ar safle a ddefnyddir fel siop, neu mewn stryd sy'n ffinio â'r safle hwnnw ac sy'n rhan o fusnes y siop.

- Gwerthu pethau, neu gynnig neu ddangos pethau sydd ar werth, fel dosbarthwr.

- Defnyddio cyfleusterau masnachu ar gyfer hamdden neu luniaeth dan Ddeddf Priffyrdd 1980, megis caffis ar y palmant.

- Gweithgareddau lle mae masnachu'n digwydd fel rhan o gasgliadau stryd a awdurdodwyd gan A5 o Ddeddf yr Heddlu, Ffatrïoedd ac ati (Darpariaethau Amrywiol) 1916, at ddibenion elusennol a llesiannol.

- Mae masnachu ar y stryd hefyd yn waharddedig ar ffyrdd arbennig, megis traffyrdd, ardaloedd gwasanaethau ar draffyrdd, a phrif gefnffyrdd a 'stryd' fel a ddiffinnir yn Neddf Priffyrdd 1980 sy'n cynnwys unrhyw ffordd, troedffordd, traeth neu ardal arall y mae gan y cyhoedd fynediad iddi heb orfod talu.

2.1 Mae'r gwasanaethau masnachu ar y stryd canlynol wedi cael eu hadnabod fel rhai nad oes gofyn cael caniatâd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar eu cyfer:

- Masnachu mewn ffeiriau awyr-agored mewn ysgolion, carnifalau mewn ysgolion, arwerthiannau cist car mewn ysgolion neu ddigwyddiadau dielw eraill. Bydd yn ofynnol i unrhyw werthwr masnachol sy'n mynychu digwyddiadau o'r fath fod â chaniatâd i fasnachu ar y stryd.

- Masnachu mewn diwrnodau hwyl cymunedol neu ddigwyddiadau tebyg a drefnwyd gan fudiadau dielw. Bydd yn ofynnol i unrhyw werthwr masnachol sy'n mynychu digwyddiadau o'r fath fod â chaniatâd i fasnachu ar y stryd.

- Gwerthu nwyddau gan ddeiliaid preswyl o fewn libart eu heiddo

2.2 At ddibenion y ddogfen hon, mae'r term sylwadau perthnasol yn golygu sylwadau a gyflwynwyd gan asiantaeth statudol neu asiantaeth gorfodi, un o adrannau'r Cyngor, neu berson y mae'n debyg y bydd y masnachu'n effeithio arno/arni. Gallai sylwadau perthnasol gynnwys materion sy'n ymwneud â chreu rhwystr yn y stryd, perygl i bobl sy'n ei defnyddio neu niwsans neu flinder, boed i bobl sy'n defnyddio'r stryd neu fel arall, ffactorau a nodir yn y Ddeddf.

## 3.0 Cyflwyniad

3.1 Mae'r polisi hwn yn ymdrin â masnachu ar y stryd yn ardal Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Caiff caniatâd i fasnachu ar y stryd ei roi dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, Atodlen 4 – Masnachu ar y Stryd. (Y Ddeddf).

3.2 At ddibenion y polisi hwn, bydd dau barth o fewn y Cyngor – bydd y parth Canol Tref yn cynnwys canol tref Pen-y-bont, Porthcawl a Maesteg a'r Parth Allanol yn cynnwys unrhyw ran arall o'r Fwrdeistref Sirol. Bydd caniatâd yn cael ei roi fel arfer ar gyfer safle penodol ac ni fydd yn drosglwyddadwy.

3.3 At ddibenion y polisi hwn, mae'r holl strydoedd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael eu dynodi'n strydoedd caniatâd fel a ddiffinnir yn y Ddeddf. At

ddibenion y Ddeddf hon, y diffiniad o stryd yw unrhyw ffordd, troedffordd, traeth neu ardal arall y mae gan y cyhoedd fynediad ati heb orfod talu. Mae'r dynodiad yn cynnwys unrhyw ran o stryd, a'r holl flaengyrtiau, ffyrdd, troedffyrdd neu ardaloedd eraill ar bwys y strydoedd am bellter o ddeng metr ar hugain.

3.4 Yn amodol ar esemptiadau statudol mae caniatâd i fasnachu ar y stryd yn ofynnol ar gyfer gwerthu unrhyw nwyddau yn y strydoedd (a ddiffinnir ym mharagraff 3.3) y mae gan aelodau o'r cyhoedd fynediad atynt heb orfod talu.

3.5 Mae proses ymgeisio ar wahân yn berthnasol i werthu alcohol yn adwerthol ac/neu ddarparu unrhyw adloniant wedi'i reoleiddio sy'n gysylltiedig â masnachu ac ar gyfer caniatâd i fasnachu o leiniau penodol ac ar gyfer masnachu ar unrhyw ran o'r ardaloedd i gerddwyr yn unig yng nghanol tref neu ar unrhyw briffordd gynaliadwy. Nid yw rhoi caniatâd yn gwarantu y bydd mathau eraill o ganiatâd sy'n ofynnol yn cael eu rhoi'n awtomatig ac erfynnir ar drefnwyr digwyddiadau i gysylltu â'r Cyngor yn ystod y cyfnod cynllunio i drafod eu digwyddiad mewn mwy o fanylder.

3.6 Mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ystyriol o weithrediad unrhyw farchnad bresennol, y siopau masnachol yng Nghanol y Trefi a gwyliau a digwyddiadau presennol. Gall y Cyngor gyfyngu ar werthu unrhyw nwyddau gan fasnachwyr ar y stryd i fathau nad ydynt mewn cystadleuaeth uniongyrchol â siopau, mannau gwerthu neu fasnachwyr eraill ar y stryd yn agos iawn at yr ardal honno.

## 4.0 Polisi Parth Canol Tref a Pharth Allanol

4.1 Nod y polisi yw ysgogi canol trefi ffyniannus a lleihau niwsans i'r eithaf mewn ardaloedd preswyl. Y polisi gor-redol yw y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar bob cais yn ôl rhinweddau'r cais hwnnw. Fodd bynnag, bydd rhagdybiaeth o blaid gwrthod, yn dilyn sylwadau perthnasol ar seiliau penodol sy'n gysylltiedig â'r potensial ar gyfer diogelwch y cyhoedd, diogelwch ar y ffyrdd, niwsans, rhwystro, ymwthiad gweledol, ysbwriel, ac arogleuon atgas.

4.3 Yn y parthau canol tref, bydd ceisiadau am ganiatâd sy'n ymwneud â'r nwyddau canlynol gan unig fasnachwyr nad ydynt yn gysylltiedig â digwyddiad neu ŵyl thematig a gymeradwywyd gan y Cyngor fel arfer yn cael eu gwrthod, os gwneir sylwadau perthnasol:

- Posteri neu eitemau tebyg
- Nwyddau chwaraeon, nwyddau cartref a dillad
- Pysgod a chig o faniau neu stondinau masnachol
- Gwerthwyr bwyd (faniau eidionod, faniau hufen ia ac ati)

4.4 Yn ogystal bydd rhagdybiaeth o blaid gwrthod caniatâd os bydd y ffactorau canlynol yn berthnasol:

a. Gwerthu cerbydau o'r briffordd, neu o le sydd ar bwys y briffordd heblaw o safle sydd â phob caniatâd cynllunio priodol

b. Masnachu'n agos iawn at ysgolion, meysydd chwarae neu gyfleusterau cymunedol eraill a ddefnyddir yn rheolaidd gan blant lle derbynnir sylwadau sy'n dweud y bydd y masnachu'n arwain at broblemau o ran diogelwch ar y ffyrdd,

effaith ar lwybrau diogel i ysgolion, neu ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ysbwriel.

c. Masnachu a fydd yn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ysbwriel

d. Masnachu sy’n debygol o rwystro llif rhwydd traffig a symudiad gan gerddwyr neu achosi perygl fel arall i ddefnyddwyr y ffyrdd

e. Masnachu a fydd yn arwain at dorri unrhyw orchymyn rheoli traffig neu gyngor a roddir yn Rheolau’r Ffordd Fawr

f. Masnachu sy’n digwydd mewn ardaloedd cul neu gyfyngedig lle byddai’r gweithgarwch yn achosi tagfeydd neu’n effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd

g. Masnachu sy’n digwydd mewn ardaloedd lle mae angen mynediad ar gyfer gwasanaethau, danfon nwyddau neu gerbydau brys

h. Masnachu a fydd yn cael effaith niweidiol ar gymeriad ardal

4.5 Gall y math o nwyddau a gaiff eu gwerthu mewn digwyddiadau thematig megis gwyliau bwyd neu ddigwyddiadau tymhorol gynnwys y rheiny yn y rhestr uchod, ond yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Rheolwr Canol Trefi.

4.6 Bydd rhagdybiaeth o blaid rhoi caniatâd ar gyfer beiciau tair olwyn i werthu hufen ia, yn amodol ar roi uchafswm o chwech bob blwyddyn ym Mharth Porthcawl.

4.7 Ar gyfer pob un o’r ardaloedd allanol eraill yn y Fwrdeistref Sirol, fe ymdrinnir â phob cais yn ôl ei rinweddau ei hun ond bydd rhagdybiaeth o blaid gwrthod caniatâd dan yr amgylchiadau canlynol:

a. Gwerthu cerbydau o’r briffordd, neu o le sydd ar bwys y briffordd heblaw o safle sydd â phob caniatâd cynllunio priodol

b. Masnachu’n agos iawn at ysgolion, meysydd chwarae neu gyfleusterau cymunedol eraill a ddefnyddir yn rheolaidd gan blant lle derbynnir sylwadau sy’n dweud y bydd y masnachu’n arwain at broblemau o ran diogelwch ar y ffyrdd, effaith ar lwybrau diogel i ysgolion, neu ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ysbwriel.

c. Masnachu a fydd yn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ysbwriel neu arogleuon atgas

d. Masnachu a fyddai’n rhwystro llif rhwydd traffig a symudiad gan gerddwyr neu’n achosi perygl fel arall i ddefnyddwyr y ffyrdd

e. Masnachu a fydd yn arwain at dorri unrhyw orchymyn rheoli traffig neu gyngor a roddir yn Rheolau’r Ffordd Fawr

f. Masnachu sy’n digwydd mewn ardaloedd cul neu gyfyngedig lle byddai’r gweithgarwch yn achosi tagfeydd neu’n effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd

g. Masnachu sy'n digwydd mewn ardaloedd lle mae angen mynediad ar gyfer gwasanaethau, danfon nwyddau neu gerbydau brys

h. Masnachu a fydd yn cael effaith niweidiol ar gymeriad ardal

## 5.0 Amodau mewn Caniatâd i Fasnachu ar y Stryd

5.1 Mae rhoi neu adnewyddu caniatâd i fasnachu ar y stryd yn amodol ar amodau safonol ac/neu arbennig sy'n ymwneud â materion megis:

- Rhwystrau
- Niwsans neu flinder
- Y lleoliad masnachu
- Oriau gweithredu
- Rheoli ysbwriel
- Unrhyw amodau eraill fel y bo'n rhesymol ac yn gymesur gan gynnwys cyfyngu'r caniatâd i un lleoliad.

5.2 Mae caniatâd i fasnachu ar y stryd ar gael am uchafswm o 12 mis a byddant yn cael eu rhoi ar sail pro rata lle gofynnir.

## 6.0 Meini prawf ar gyfer asesu ceisiadau

6.1 Mae ymgeiswyr am ganiatâd i fasnachu ar y stryd yn ymwneud â'r cyhoedd, yn aml â phlant a phobl agored i niwed. Felly bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno "chwiliad mewn ymateb i gais gwrthrych am wybodaeth" sy'n gyfredol (nad yw'n fwy na 28 niwrnod oed) o Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) neu Ddatgeliad Cofnodion Troseddol cymeradwy o fath arall cyn y rhoddir caniatâd ac ar gyfer pob cynorthwyydd a fydd yn rhan o weithrediad y caniatâd. Ceir copi isod o'r meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio i asesu euogfarnau. Yr Is-bwyllgor Trwyddedu fydd yn penderfynu ynghylch ceisiadau oddi wrth bobl ag euogfarnau troseddol sydd heb ddarfod ac achosion eraill lle ystyrir fod ymgeisydd yn anaddas i fod â chaniatâd.

6.2 Gellir cyflwyno ceisiadau ar ffurf copi caled neu'n electronig ac mae'n rhaid iddynt gynnwys cynllun sy'n dangos lleoliad y masnachu arfaethedig, disgrifiad o'r nwyddau a fydd yn cael eu gwerthu, manylion cyswllt deiliad y caniatâd a'r gwerthwyr a, lle mae'r masnachu'n digwydd o stondin, cert neu gerbyd, ffotograff o'r stondin, cert neu gerbyd dan sylw. Bydd y Cyngor hefyd yn gofyn am unrhyw wybodaeth arall yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol ac yn rhesymol gofyn amdani i benderfynu ynghylch y cais.

6.3 Yr ymgeisydd fydd yn gyfrifol am gael unrhyw ganiatâd arall, gan gynnwys caniatâd gan yr awdurdod cynllunio a phriffyrdd a chaniatâd y tirfeddiannwr i fasnachu ar y stryd. Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu cadarnhad ysgrifenedig o ganiatâd y tirfeddiannwr i fasnachu ar y stryd.

6.4 Cynghorir ymgeiswyr i gyflwyno'u cais o leiaf wyth wythnos cyn y digwyddiad.

6.5 Bydd lefelau'r ffioedd am fasnachu ar y stryd yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel rhan o'r ymarferion cyllidebol arferol. Bydd unrhyw ddiffygdalu mewn perthynas â'r ffioedd yn dirymu'r caniatâd.

## 7.0 Ymgynghori

7.1 Yn dilyn derbyn cais am ganiatâd i fasnachu ar y stryd bydd y Cyngor yn ymgynghori (lle y bo'n briodol) â'r canlynol;

- Heddlu De Cymru
- Rheolwr Grŵp - Priffyrdd
- Rheolwr Grŵp - Trafnidiaeth
- Yr awdurdod cynllunio
- Rheolwr Canol Trefi Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Adran Eiddo Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Adran Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Rheolwr Gwaith Stryd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Y Siambr Fasnach Leol neu grŵp cynrychiolaidd tebyg
- Bydd Ymgynghoriadau Cyhoeddus yn digwydd trwy wefan y Cyngor www.bridgend.gov.uk
- Penaethiaid Ysgolion – yn agos at safle'r cais

## 8.0 Proses ar gyfer Apelio/Ceisio Iawn

8.1 Nid yw'r ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaeth ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod caniatâd. Dylid ceisio iawn yn y lle cyntaf trwy'r Rheolwr Grŵp – Diogelu'r Cyhoedd neu drwy wasanaeth Cwynion Corfforaethol y Cyngor. Ceir mwy o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn www.bridgend.gov.uk

## 9.0 Cofrestru safleoedd bwyd

9.1 Er nad yw'n rhan o'r polisi hwn, dylai ymgeiswyr gofio am yr angen i gofrestru busnesau bwyd gyda'r awdurdod lleol. Mae cofrestru'n golygu cwblhau ffurflen gais. Ni chodir tâl am gofrestru ond mae'n rhaid i fusnesau newydd gofrestru o leiaf wyth niwrnod ar hugain cyn eu bod yn bwriadu agor er mwyn galluogi swyddogion y Cyngor i roi cyngor priodol. Gellir cael mwy o wybodaeth yn publicprotection@bridgend.gov.uk

## 10.0 Hawliau "tad-cu"

10.1 Yn dilyn mabwysiadu'r polisi hwn, bydd y Cyngor yn gwyro oddi wrth y meini prawf uchod er mwyn rhoi ystyriaeth arbennig i geisiadau oddi wrth fasnachwyr presennol mewn ardaloedd lle nad oedd rheolaethau'n bodoli'n flaenorol sy'n gallu darparu tystiolaeth o fasnachu hirsefydlog neu barhaol o safle, ar yr amod eu bod wedi cael caniatâd y tirfeddiannwr a phob caniatâd perthnasol arall sy'n gysylltiedig â'r gweithrediad masnachu. Mae caniatâd i fasnachu yn y nwyddau canlynol, neu yn y lleoliadau canlynol yn debygol o gael ei wrthod dan yr amgylchiadau canlynol:

a. Gwerthu cerbydau o'r briffordd, neu o le sydd ar bwys y briffordd heblaw o safle sydd â phob caniatâd cynllunio priodol

b. Masnachu'n agos iawn at ysgolion, meysydd chwarae neu gyfleusterau cymunedol eraill a ddefnyddir yn rheolaidd gan blant lle derbynnir sylwadau sy'n dweud y bydd y masnachu'n arwain at broblemau o ran diogelwch ar y ffyrdd, effaith ar lwybrau diogel i ysgolion, neu ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ysbwriel.

c. Masnachu a fydd yn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ysbwriel

d. Masnachu sy'n debygol o rwystro llif rhwydd traffig a symudiad gan gerddwyr neu achosi perygl fel arall i ddefnyddwyr y ffyrdd

e. Masnachu a fydd yn arwain at dorri unrhyw orchymyn rheoli traffig neu gyngor a roddir yn Rheolau'r Ffordd Fawr

f. Masnachu sy'n digwydd mewn ardaloedd cul neu gyfyngedig lle byddai'r gweithgarwch yn achosi tagfeydd neu'n effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd

g. Masnachu sy'n digwydd mewn ardaloedd lle mae angen mynediad ar gyfer gwasanaethau, danfon nwyddau neu gerbydau brys

h. Masnachu a fydd yn cael effaith niweidiol ar gymeriad ardal

## 11.0 Gorfodi

11.1 Bydd y Cyngor yn mabwysiadu dull seiliedig-ar-risg mewn perthynas â gorfodi a rheoleiddio ac yn dilyn protocolau gorfodi'r Cyngor. Nod y dull yw sicrhau cymesuredd, cysondeb a thryloywder. Mae'n debygol yr ymdrinnir â masnachu sy'n gysylltiedig â digwyddiadau elusennol ar raddfa fechan gan ddefnyddio dull "cyffyrddiad ysgafn" o reoleiddio ac y bydd masnachwyr yn cael cyfnod rhesymol o amser i ymgeisio am bob caniatâd angenrheidiol. Bydd cyngor a ffynonellau gwybodaeth yn cael eu rhannu â threfnwyr trwy wefan y Cyngor neu drwy ddulliau eraill pan ofynnir.

## 12.0 DATGANIAD O BOLISI AR DRWYDDEDU CYN-DROSEDDWYR MEWN PERTHYNAS Â CHEISIADAU AM GANIATÂD I FASNACHU AR Y STRYD

12.1 Mae'r canlynol yn ddisgrifiad o ddull cyffredinol y Cyngor o ymdrin â chategorïau penodol o droseddau ond bydd yn ymdrin â phob achos yn ôl rhinweddau'r achos hwnnw. Y prif ystyriaethau ym mhob achos fydd diogelwch y cyhoedd, y ffaith nad yw masnachwyr yn masnachu o adeiladau ac y gallant felly gael cyswllt heb oruchwyliaeth â'r cyhoedd ac yn enwedig yr ifanc a phobl sy'n agored i niwed. Ym mhob achos, bydd mwy o bwys yn cael ei roi ar euogfarnau lle'r oedd y dioddefwr yn berson ifanc neu agored i niwed a'r rheiny sy'n ymwneud â masnachu, ffugio neu droseddau tebyg.

### 12.2 Anonestrwydd

Mae aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio safle masnachu ar y stryd yn disgwyl i'r deiliad a'i g/chynorthwyydd fod yn onest ac yn ddibynadwy. Am y rheswm hwn bydd unrhyw euogfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd yn cael ei ystyried yn fater difrifol iawn. Ar y cyfan, mae rhywun sy'n cyflwyno cais i roi neu adnewyddu caniatâd i fasnachu ar y stryd yn annhebygol o gael caniatâd i fasnachu ar y stryd pan fo'r cais yn cael ei gyflwyno o fewn 3 i 5 mlynedd i euogfarn am anonestrwydd o unrhyw fath.

### 12.3 Trais

Gan fod masnachwyr ar y stryd a'u cynorthwywyr yn cael cyswllt agos â'r cyhoedd, byddwn yn mabwysiadu dull cadarn o ymdrin ag ymgeiswyr a gafwyd yn euog o

ddefnyddio trais. Mewn achosion lle mae cyflawni trosedd wedi arwain at golli bywyd, bydd y cais am ganiatâd i fasnachu ar y stryd yn cael ei wrthod fel arfer.

Mewn achosion eraill, bydd cyfnod o 3 i 10 mlynedd heb euogfarn o ddyddiad yr euogfarn neu'r dyddiad rhyddhau lle rhoddwyd dedfryd o garchar, gan ddibynnu ar natur a difrifoldeb y trosedd(au), yn ofynnol ar y cyfan cyn bod cais yn debygol o gael ystyriaeth ffafriol.

**12.4 Camddefnyddio Cyffuriau**

Byddwn yn ystyried euogfarnau sy'n ymwneud â chyflenwi neu fewnforio cyffuriau fel materion difrifol iawn ac maent yn debygol o arwain at wrthod caniatâd.

Ar gyfer euogfarn sy'n ymwneud â meddu ar gyffuriau dylai'r ymgeisydd fod heb euogfarn am o leiaf 5 mlynedd ar ddyddiad y cais gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.

**12.5 Troseddau rhyw ac anwedduster**

Gan y gallai deiliaid caniatâd i fasnachu ar y stryd a'u cynorthwywyr ddod i gysylltiad â phlant neu bobl agored i niwed heb oruchwyliaeth bydd ceisiadau am ganiatâd i fasnachu ar y stryd oddi wrth ymgeiswyr a gafwyd yn euog o dreisio, ymosod yn anweddus, unrhyw drosedd rhyw sy'n ymwneud â phlant ac unrhyw euogfarn am drosedd dan Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 yn cael eu gwrthod.

**12.6 Euogfarnau mewn perthynas â gyrru cerbyd**

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae euogfarnau mewn perthynas â gyrru cerbyd yn annhebygol o fod yn berthnasol wrth benderfynu a yw ymgeisydd am ganiatâd i fasnachu ar y stryd yn berson addas. Fe ymdrinnir â phob achos yn ôl ei rinweddau gan roi mwy o bwys ar euogfarnau a arweiniodd at waharddiad.

**12.7 Rhybuddion ffurfiol a hysbysiadau cosb benodedig**

At ddibenion y canllawiau hyn, bydd y Cyngor yn trin Rhybuddion Ffurfiol a hysbysiadau cosb benodedig perthnasol fel pe baent yn euogfarn gerbron y llysoedd.

**12.8** Bydd y polisi hefyd yn berthnasol i unrhyw berson sy'n cynorthwyo deiliad y caniatâd i fasnachu.

**Mae'r polisi hwn ar gael mewn fformatau eraill ar gais**

**Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2011**